Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

‘DIM DRWS ANGHYWIR’

Strategaeth Ranbarthol Gymunedol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

2022 -2027

Crynodeb Gweithredol DRAFFT

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Cefndir

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn cydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc nad yw eu hanghenion yn ddigon difrifol i fod angen cymorth arbenigol ond sydd wedi'u haflonyddu'n emosiynol a/neu sydd â phroblemau ymddygiadol. Y nod yw creu strategaeth sy'n galluogi partneriaid Awdurdodau Lleol a Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru i gefnogi gwydnwch emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd yn y grŵp hwn, ar draws y rhanbarth. Mae'r strategaeth yn cynnig syniadau o ran sut all asiantaethau gydweithio orau i ymateb i'r sbectrwm lawn o anghenion plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol gan lunio ar fodelau o arfer da yng Nghymru a thu hwnt.

Bu i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gomisiynu Alder Advice i helpu gyda'r prosiect hwn. Mae Alder Advice yn grŵp o weithwyr proffesiynol annibynnol sy'n gweithio yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai â chymorth, gan arbenigo mewn gweithio gyda sefydliadau statudol i wella canlyniadau i bobl. Mae eu dull bob amser wedi'i seilio ar gryfderau, yn werthfawrogol ac yn gyd-gynhyrchiol, gan geisio adeiladu ar y pethau sy'n gweithio'n dda a defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â'r problemau sydd angen mynd i'r afael arnyn nhw.

1.2 Cyflwyniad

Datblygwyd strategaeth 'Dim Drws Anghywir' Gogledd Cymru trwy broses ar y cyd yn defnyddio dulliau Ymchwiliad Gwerthfawrogol. Mae'r rhain wedi'u seilio ar gryfderau ac yn ceisio: darganfod beth sy'n gweithio'n dda yn y system bresennol; datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol; dylunio model darparu ar gyfer y dyfodol; cynnig a gweithredu cynllun.

Cynhaliwyd y broses dros gyfnod o 5 mis ac roedd yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r tîm rhanbarthol a Rheolwyr Gwasanaethau Plant i egluro cwmpas y prosiect a gweithio ar y cyd i ddechrau'r rhaglen waith
- Ymchwil data meintiol
- Archwilio arfer da cenedlaethol a rhyngwladol yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl a lles integredig plant a phobl ifanc
- Cyfres o weithdai gyda gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner ar draws y rhanbarth
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael cysylltiad gyda gwasanaethau perthnasol
- Drafftio dogfen strategaeth iteraidd ac adolygu wedi'i seilio ar adborth gan uwch reolwyr

Mae'r strategaeth derfynol yn cynnig adolygiad radical o'r trefniadau presennol sy'n cynnig model uchelgeisiol ar gyfer cydweithio a fydd yn gwella canlyniadau iechyd meddwl a lles i blant a phobl ifanc 0 i 25 oed. Mae'n adeiladu ar gryfderau'r system bresennol ac wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer y cyd-destun lleol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yn cael ei gefnogi gan amryw o fewnbynnau sy'n cael eu darparu gan rwydwaith cymhleth o wasanaethau ac ymyriadau, yn ffurfiol ac anffurfiol. Mae gan y strategaeth hon oblygiadau i'r holl bartneriaid ac asiantaethau sy'n cyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles plant a phobl ifanc, sy'n galluogi iddynt fyw eu bywydau gorau posibl. Wrth wraidd y strategaeth mae yna ofyniad i gytuno ar

ariannu'r model. Bydd angen i bob asiantaeth ddehongli ac alinio eu strategaethau a'u cynlluniau eu hunain i'r strategaeth 'Dim Drws Anghywir' hwn.

Mae'r strategaeth yn cynnig dull rhanbarthol wedi'i seilio ar weledigaeth a rennir, set gytunedig o egwyddorion a model darparu cyffredin a fydd yn cael ei ddefnyddio ar draws Gogledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod yna wahaniaethau sylweddol ar draws y rhanbarth sy'n adlewyrchu ffactorau diwylliannol, iaith, dwysedd poblogaeth ac economaidd, ymysg pethau eraill. Felly mae'r model darparu yn hyblyg a gellir teilwra'r gwaith o'i weithredu i amgylchiadau lleol. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau bod atebolrwydd lleol ar gyfer cydymffurfio â'r egwyddorion a pherfformiad y system. Rydym yn cyfeirio at y dull hwn fel Tynn - Llac - Tynn:
Cydymffurfio'n dynn â'r egwyddorion ac amlinellu model ar gyfer y gwasanaeth
Gweithredu'r model ar gyfer y gwasanaeth yn llac (hyblyg)
Atebolrwydd a monitro perfformiad yn erbyn y strategaeth yn dynn

1.3 Gweledigaeth Gytunedig ar gyfer y Dyfodol

Datblygwyd y datganiad o weledigaeth hwn o'r themâu allweddol a nodwyd yn ystod gweithdai'r gweithwyr proffesiynol ac wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

Rydym eisiau i blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru fwynhau eu hiechyd meddwl a lles gorau.

Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod y sefydliadau sy'n eu cefnogi yn hygyrch, yn gweithio'n effeithio gyda'i gilydd, ac yn ceisio darparu canlyniadau'n brydlon, wedi'i seilio ar ddewisiadau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

1.4 Egwyddorion

Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol, sydd unwaith eto yn deillio o'r broses datblygu ar y cyd a'r ymchwil i arfer da.

1. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hunain, a bydd eu gwerth yn cael ei werthfawrogi.

2. Byddwn yn gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddeall eu byd a'u profiadau. Bydd eu barn yn ein helpu ni i siapio a gwerthuso ein gwasanaethau.

3. Byddwn yn lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth wedi'i dargedu drwy fuddsoddi mewn mesurau ataliol.

4. Byddwn yn lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth mwy dwys drwy ddarparu ymyrraeth gynnar yn brydlon.

5. Byddwn yn ei gwneud yn hawdd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ddod o hyd i wybodaeth am iechyd meddwl ac, os bo angen, i gael cymorth y gellir cael mynediad ato yn defnyddio trefniadau syml a chyfleus.

6. Bydd gwell cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion.

7. Bydd gan yr holl blant a phobl ifanc fynediad at gymorth wedi'i gydlynu gan ystod o weithwyr proffesiynol, lle tybir fod hyn er budd pennaf yr unigolyn.

8. Ni ddylid eithrio unrhyw blentyn rhag cael mynediad at wasanaeth oherwydd ei amgylchiadau teuluol.

9. Bydd gan yr holl blant a phobl ifanc gyfle i ffurfio perthynas o ymddiriedaeth gyda gweithwyr proffesiynol priodol. Bydd ganddyn nhw, a'u teuluoedd, gefnogaeth gan gydlynydd a fydd yn rheoli eu hachos ac yn eu helpu i lywio'r system.

10. Bydd ymyrraeth yn brydlon, gan osgoi gorfod aros yn hir am wasanaethau ac wedi'i seilio ar anghenion yn hytrach na diagnosis. Bydd gwasanaethau yn canolbwyntio ar y plentyn, wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn hyblyg i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu a'u darparu mewn ffordd addas a chyfleus, yn cynnwys ar-lein.

11. Bydd y llwybr yn gweithredu'n ddi-dor ar draws gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, addysg, darpariaethau cymunedol a'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol.

12. Bydd gennym drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer adnoddau system a gweithgarwch proffesiynol.

1.5 Crynodeb o'r Model

Mae'r model gwasanaeth newydd a ddatblygwyd i roi strategaeth 'Dim Drws Anghywir' Gogledd Cymru ar waith wedi'i ddylunio i fod yn hyblyg ac ymatebol i wahanol lefelau o angen, gyda phob lefel yn darparu triniaeth a chefnogaeth sydd wedi'i deilwra i, ac yn gymesur ag, anghenion y plentyn neu berson ifanc, gan ganolbwyntio ar ddarparu cymorth prydlon ac atal problemau rhag mynd yn fwy difrifol. Mae'r dull hwn, sy'n gyffredin â modelau o arfer da yn disodli model sy'n cynnwys haenau gwasanaeth wedi'i seilio ar ddiagnosis a hierarchaeth o feini prawf mynediad.

Mae'r system newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 0 - 25 oed ac yn ceisio cael y cymorth cywir i'r babi, plentyn neu berson ifanc cyn gynted â phosibl. Mewn rhwydwaith aml-asiantaeth cymhleth o wasanaethau, mae hwn yn cael ei gyflawni orau drwy broses a reolir yn cynnwys gweithio ar y cyd da, rhannu gwybodaeth a phartneriaethau aeddfed. Felly mae'r strategaeth yn cynnwys model gwasanaeth amlddisgyblaethol sy'n gweithredu fel petai'n un asiantaeth. Mae hyn yn gofyn am newid mewn diwylliant, cael systemau a phrosesau newydd a threfniadau ariannu. Lle bo angen, bydd hyblygrwydd rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

Rydym yn argymell bod y model yn cael hunaniaeth brand nodedig. Mae hyn wedi'i wneud yn dda mewn prosiectau ailddatblygu gwasanaethau eraill. Bydd yn nodi dechrau newydd o weithio ar y cyd rhwng y partneriaid, ei gwneud yn fwy deniadol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac yn hwyluso'r newid mewn diwylliant sy'n angenrheidiol ar gyfer ei

lwyddiant. Yn ddelfrydol, bydd Plant a Phobl Ifanc yn cymryd rhan yn y broses o enwi'r brand.

Mae'r model wedi'i ddylunio i ymateb yn gyflym i broblemau iechyd meddwl a dod o hyd i ddatrysiadau cynnar yn y gymuned lle mae'r babi, plentyn neu berson ifanc yn byw ynddi. Yn ddelfrydol, bydd hyn yn cael ei wneud heb gyfranogiad gwasanaethau iechyd meddwl ffurfiol, ar wahân i ddarparu cyngor, os bo angen. Mae gan wasanaethau cyffredinol, yn enwedig addysg, rôl bwysig mewn meithrin iechyd meddwl plant a phobl ifanc a nodi problemau sy'n datblygu a darparu cefnogaeth yn gynnar. Felly mae darparu hyfforddiant a chymorth i'r gwasanaethau hyn yn hanfodol er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau iechyd meddwl ffurfiol, dylai hyn gynnwys cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Mae'r system iechyd meddwl ffurfiol arfaethedig wedi'i ddylunio i ymateb i 4 lefel gwahanol o angen:

Anghenion Isel - Mae'r rhain yn cael eu profi gan fabanod, plant a phobl ifanc sydd wedi cael pryder lles ac wedi gwneud cynnydd cyffredinol da yn defnyddio sianeli ataliol ac nad ydynt yn arbenigol. Nid oes anghenion nas diwallwyd ychwanegol neu mae un angen yn / wedi cael ei nodi a all/ sydd wedi cael ei ddiwallu drwy gael cymorth gan wasanaethau cymorth addysg, neu wasanaeth cyffredinol.

Anghenion Ychwanegol - Mae gan fabanod, plant a phobl ifanc yn y categori hwn anghenion na ellir eu bodloni drwy wasanaethau cyffredinol ac sydd angen cymorth aml-asiantaethol ychwanegol wedi'i gydlynu ar gam cynnar. Mae hefyd yn cynnwys y rhai y mae eu hanghenion presennol yn aneglur.

Anghenion Cymhleth - Babanod, plant a phobl ifanc gyda lefel gynyddol o anghenion nas diwallwyd, a'r rhai sydd angen ymyriadau mwy cymhleth a chymorth wedi'i gydlynu ychwanegol i atal pryderon rhag cynyddu.

Anghenion Aciwt/Arbenigol, yn cynnwys Diogelu - Mae'r rhain yn codi pan fydd babanod, plant a phobl ifanc wedi profi niwed sylweddol, neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol yn cynnwys y rhai lle mae pryderon lles sylweddol. Bydd gan y plant hyn y lefel uchaf o angen ac efallai byddant angen ymyrraeth frys neu arbenigol iawn.

1.6 Y Model Gwasanaeth Newydd



Ffigur 1: Y Model Gwasanaeth Newydd (Crynodeb Gweithredol)

Mae gan y model newydd atgyfeiriadau agored (gan unrhyw asiantaeth neu unigolyn, yn cynnwys hunanatgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan deuluoedd), mynediad aml-sianel (llythyr, e-bost, ffôn neu wyneb yn wyneb) a ddarperir drwy Drefniant Un Mynediad. Mae'r trefniant un mynediad yn borth unigryw i'r holl wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc o fewn y system ffurfiol.

Mae 'canolbwyntiau' iechyd meddwl yn un o nodweddion allweddol y system. Mae'r rhain yn darparu sawl swyddogaeth yn cynnwys derbyn ymholiadau, brysbennu, cyfeirio at wasanaethau eraill, asesu, darparu triniaethau a chefnogaeth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, estyn allan a hyfforddiant i staff mewn rhannau eraill o'r system. Bydd y canolbwyntiau yn aml-asiantaethol, gan ddod â staff o'r holl ddisgyblaethau a gwasanaethau perthnasol at ei gilydd yn defnyddio fframwaith llywodraethu cytunedig.

Yn ddelfrydol bydd y canolbwyntiau yn cynnwys (ond ddim o reidrwydd wedi'u cyfyngu i) endidau corfforol gyda chyfleusterau derbynfa, gofodau therapiwtig ac ystafelloedd cyfarfod. Efallai bydd ganddynt y gallu i weithredu'n deithiol hefyd, yn defnyddio cyfleusterau cymunedol yn achlysurol neu, os bo'n briodol, adnoddau symudol. Bydd gweithrediadau'r canolbwyntiau yn cael eu cefnogi gan seilwaith TGCh a threfniadau rhannu data i hwyluso cydweithio effeithiol a darparu mynediad/gwasanaeth i blant a phobl ifanc.

Bydd y canolbwyntiau yn gweithredu model arfer Tîm o Amgylch y Plentyn / Tîm o

Amgylch y Teulu a bydd triniaeth a chymorth bob plentyn neu berson ifanc yn cael ei gydlynu gan weithiwr proffesiynol arweiniol. Bydd y gweithwyr proffesiynol arweiniol yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer mynediad i unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth sydd ei angen. Mae'r model yn cynnwys darpariaeth ymateb i argyfwng, sydd ar gael ar unrhyw bwynt yn y llwybr.

Mae'n hanfodol bod y defnydd o adnoddau yn y system yn cael ei optimeiddio, a bydd hwn yn gyfrifoldeb i'r panel adnoddau amlddisgyblaethol ac aml-asiantaethol. Mae hwn yn cael ei ffurfio o reolwyr gweithredol gwasanaethau allweddol o fewn y system, cynrychiolwyr ysgolion ac efallai bydd hefyd yn cynnwys sefydliadau tai a'r trydydd sector. Bydd yn cynghori ar beth yw'r adnoddau mwyaf addas i ddiwallu anghenion y plentyn neu berson ifanc yn y ffordd fwyaf cost effeithiol, prydlon sy'n canolbwyntio ar y plentyn orau. Yn bwysicaf oll, bydd ganddo'r awdurdod i ofyn am hyblygrwydd mewn mynediad/cymhwyster gwasanaethau ac i ddyfarnu ar ddadleuon, lle bo angen.

Mae'r Panel Adnoddau yn darparu rheolaeth lefel weithredol (haen ganolog) a pherfformiad y system iechyd, gofal a chymorth. Mae'n rhan o fodel llywodraethu sy'n cynnwys tri lefel gweithgaredd rhyng-gysylltiol. Y lefelau eraill yw'r lefel gwasanaethau (haen isaf) a'r lefel strategol (haen uchaf).

Mae gan y trefniadau llywodraethu lefel gwasanaeth gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaeth. Yn y model arfaethedig sydd "I Ddod" mae hyn yn cynnwys dwy elfen: y canolbwyntiau iechyd meddwl a'r holl wasanaethau darparwyr (sy'n wasanaethau sydd wedi'u rheoli a'u comisiynu'n uniongyrchol).

Mae'r trefniadau llywodraethu Lefel Strategol yn gyfrifol am osod strategaethau a pholisïau, dal y lefel gweithrediadau i gyfrif am berfformiad a defnydd o adnoddau ac yn atebol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Byrddau pob sefydliad partner.

1.7 Yr Achos dros Newid

Mae yna 3 ffactor sy'n sbarduno newid yng Ngogledd Cymru:

1) Achos economaidd ac ansawdd: Mae'r system bresennol yn rhoi cyfle cyfyngedig ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar ac yn or-ddibynnol ar ddarpariaeth arbenigol cost uchel. Mae anghenion iechyd meddwl na aethpwyd i'r afael arnynt ynghynt yn arwain at forbidrwydd cynyddol ac argyfwng y gellir ei osgoi sy'n cynyddu'r galw am fwy o wasanaethau. Bydd buddsoddi yn iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc nid yn unig yn gwneud bywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn well, ond mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu ei fod yn debygol o fod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir yn ystod oes gyfan hefyd. Mae'r achos economaidd ac ansawdd dros newid wedi'i seilio ar y dystiolaeth ymchwil, mesuryddion perfformiad y system a deallusrwydd lleol a grynhowyd yn Ffigur 2 isod.



Ffigur 2: Crynodeb o'r Achos dros Newid (Crynodeb Gweithredol)

2) Adborth gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd: Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi dweud wrthym fod llawer o rwystrau i gael mynediad at wasanaethau; mae amseroedd aros yn hir ac mae eu profiadau o wasanaethau a chanlyniadau yn wael. Mae hyn yn arwain at gyfyngu ar newidiadau bywyd plant a phobl ifanc yn y tymor byr a'r tymor hir yn ystod eu bywydau. Un enghraifft o hyn yw stori Gareth:

> "O oed ifanc roeddwn i'n teimlo fod rhywbeth yn wahanol amdanaf i a phan ddechreuais yn yr ysgol sylwodd fy mam a fy athro fy mod yn cael hi'n anodd dysgu ac yn cynhyrfu am fynd i'r ysgol. Cefais fy atgyfeirio gan fy meddyg teulu at y tîm niwroddatblygiadol am asesiad ac fe arhosais am 2 flynedd i gael fy ngweld. Wrth aros i gael fy ngweld roeddwn yn disgyn tu ôl gyda fy ngwaith ysgol, yn teimlo'n drist ac yn cael trafferth gwneud ffrindiau yn yr ysgol. Yn y diwedd, cefais wybod bod gennyf awtistiaeth ffiniol a gan fod y diagnosis yn un ffiniol ni chefais unrhyw gymorth yn yr ysgol. Roeddwn yn teimlo fel nad oedd neb yn poeni amdanaf. Roeddwn yn cael trafferth yn yr ysgol, yn cael trafferth gwneud ffrindiau ac ni lwyddais i gael unrhyw gymhwyster. O'r diwedd, pan oeddwn yn 17 oed, cefais ddiagnosis o awtistiaeth, ond roedd hi'n rhy hwyr, roeddwn yn ddigartref ac yn teimlo fy mod wedi methu'n llwyr. Rwy'n gwybod y gallaf fod wedi gwneud yn llawer gwell gan fy mod yn derbyn cymorth yn awr, ond mae'n rhy hwyr."

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym eu bod eisiau teimlo'n obeithiol ac yn benodol roeddent eisiau cael gwasanaethau sy'n integredig, hygyrch ac sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar.
Mae adborth yn dangos fod y rhai a gymerodd rhan yn falch o weld yr amrywiaeth o gysyniadau a ddatblygwyd yn y gweithdai proffesiynol.

3) Adborth gan weithwyr proffesiynol: Mae recriwtio a chadw'r gweithlu yn broblem fawr yng Ngogledd Cymru. Mae denu digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn broblem benodol. Mae staff o dan bwysau cyson i gynnal lefelau galluedd, bodloni'r galw cynyddol,

rheoli rhestrau aros a goresgyn sawl rhwystr i ddarparu gwasanaethau. Mae gweithwyr proffesiynol wedi dweud wrthym y gellir gwella darpariaeth gwasanaeth drwy gael sefydliadau yn cydweithio er mwyn integreiddio gwasanaethau, gwneud gwasanaethau yn fwy hyblyg, gwella mynediad, a gwrando go iawn i'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn dweud sydd ei angen arnynt, a'i ddarparu. Pwysleisiodd gweithwyr proffesiynol eu bod eisiau teimlo'n obeithiol y tro hwn ac eisiau i arweinwyr fod yn ddewr, radical a darparu newid ar raddfa a chyflymder.

10. Gweithredu

Mae hon yn strategaeth radical a chymhleth a fydd angen rhaglen weithredu sylweddol a llawn adnoddau i fynd i'r afael â'r newid diwylliannol angenrheidiol, datblygu cyllideb sydd wedi'i alinio/ cymysgu, newidiadau strwythurol, gofynion seilwaith a datblygu fframweithiau gweithredu. Mae'r dull 'Tynn - Llac - Tynn' a argymhellir yn caniatáu i ddatrysiadau lleol wireddu uchelgais ac egwyddorion y strategaeth. Byd angen i ran o'r rhaglen weithredu gael dull rhanbarthol, gan y bydd y gofynion newid yn gyffredin ar draws pob ardal, tra bydd rhai angen datblygiad lleol o'r elfennau hynny sy'n 'llac'.

Mae'r strategaeth lawn yn amlinellu cynllun gweithredu 5 mlynedd, gyda'r prif newidiadau yn digwydd ym mlwyddyn 1-3. Bydd yn gofyn am ymrwymiad sefydliadol ac ymrwymiad o adnoddau gan yr holl bartneriaid, rheolaeth rhaglen gadarn a chymorth arbenigol allanol ar gyfer y broses drawsnewid. Mae'n cynnig dull rhanbarthol trosfwaol, wedi'i gefnogi gan grwpiau gweithredu lleol, a fyddai'n cynnwys rhoi secondiad i rai staff o rolau gweithredol i ymgymryd â'r gwaith datblygu angenrheidiol. Bydd angen staff eraill dros dro i gyflenwi'r staff gweithredol hyn a fydd yn cael eu rhyddhau. Dylai'r gwaith o'i weithrediad alinio gyda, a chyfrannu at, broses newid paralel, er enghraifft Matrics Aeddfedrwydd Iechyd Meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.